# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cygnor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**

Dyddiad ac Amser

**6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 21AIN MAWRTH, 2017**

Lleoliad

**Ystafell Gyfarfod, Frondeg, Pwllheli, LL53 5RE.**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru**

(DISTRIBUTED 14/03/17)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Michael Sol Owen | Aelod Lleol |
| Cynghorydd Peter Read | Aelod Lleol Abererch |
| Cynghorydd Hefin Underwood | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Ifor Hughes | Cymdeithas Perchnogion Cyhod Pwllheli a'r Cylch |
| Stephen Tudor | Cynrychioli Clwb Hwylio Pwllheli a Plas Heli |
| David Dewsbury | Cynrychioli Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli |
| Wil Partington | Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli |
| Andrew Picken | Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli |
| Cynghorydd Mici Plwm | Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli |
| Clive Moore | Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi |
| Cynghorydd David Richardson | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Cynghorydd Gethin Glyn Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Dr John Jones-Morris | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog |

## RHAGLEN

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 3. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

### 4. COFNODION 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2016, fel rhai cywir.

### 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 7 - 30

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

### 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli ar 17 Hydref 2017.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 18/10/16

**Presennol:** Y Cynghorydd Michael Sol Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Hefin Underwood (is-gadeirydd)

David Dewsbury (Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli), Ifor Hughes (Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch), Alwyn Roberts (Sefydliad y Bâd Achub) a Stephen Tudor (Clwb Hwylio Pwllheli).

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Wil Williams (Rheolwr Harbwr Pwllheli) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Peter Read (Cyngor Gwynedd), W. A. Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol), Cynghorydd Mici Plwm (Cyngor Tref Pwllheli) a'r Cynghorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet - Economi).

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Michael Sol Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2016/17.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Hefin Underwood yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2016/17.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 22 Mawrth, 2016 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR**

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad cryno o'r cyfnod rhwng Ebrill 2016 a Hydref 2016, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod 58 cwch wedi angori yn yr Harbwr allanol, gyda 18 cwch wedi manteisio ar y cyfle i angori ar bontŵn Plas Heli. Cyflwynwyd y cynnig yma dros dro oherwydd ansicrwydd o ran cyflwr angorfeydd yn Ardal 5 a 6. Ar y cyfan golygai hyn bod cyfanswm o 83 cwch wedi angori yn 2016 o gymharu â 87 cwch yn 2015.
- Cadarnhawyd bod 287 cwch ar angorfa pontŵn blynyddol yn yr Hafan, sef 68% o'r cyfanswm nifer angorfeydd pontŵn sydd ar gael. Roedd hyn yn cymharu gyda 292 cwch a fu ar angorfa pontŵn yn 2015.
- Gofynnir i aelodau dynnu sylw'r Gwasanaeth i faterion yng nghyswllt y Côd Diogelwch Morwrol.
- Bod yr Uwch Swyddog Harbyrau yn adolygu'r côd diogelwch ac y bydd Uwch Arolygydd Gwylwyr y Glannau yn ymweld â'r Cyngor yn mis Chwefror 2017 i'w archwilio ac i gyflwyno adborth ar y côd.
- Bod y Gwasanaeth yn parhau i ddatblygu Mesuryddion Perfformiad mewn perthynas â rheolaeth yr harbyrau. Cylchredir y mesuryddion i sylw'r aelodau ac y gobeithir y gallai'r aelodau gyfrannu at y mesuryddion yn ystod 2017-18.

- Cynhaliwyd archwiliad gan Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar 26 Gorffennaf 2016. Roedd adroddiad 2016 yn cadarnhau gwelliant yng nghyflwr a lleoliadau cymhorthion mordwyo harbyrau yng Ngwynedd.
- Bod cymhorthydd mordwyo 'Hafan y Môr' yn parhau i fod oddi ar ei safle. Nodwyd er nad oedd y Cyngor yn gyfrifol am y cymhorthydd bod y Cyngor efo cyfrifoldeb i sicrhau bod perchennog y cymhorthydd yn cydymffurfio efo gofynion Tŷ'r Drindod. Roedd y Gwasanaeth wedi gohebu efo rheolwyr Hafan y Môr yn nodi'r gofyn i ail leoli'r cymhorthydd ar ei safle fel mater brys.
- Yn dilyn ymgynghori gyda'r Pwyllgor Ymgynghorol, gweithredwyd ar fân welliannau i osodiad bwiau parth cyflymder uchaf ardal Glandon ac yn ystod tymor yr haf gosodwyd bwiau ychwanegol gan fod cychod pŵer yn tramwyo yn agos at y lan ar gyflymder uchel ar adegau. Nodwyd er cwblhau man welliannau y derbyniwyd sawl cwyn gan y cyhoedd o ran cychod pŵer yn mordwyo ar gyflymder uchel yn yr ardal. Roedd y Gwasanaeth wedi adnabod y cwch ac fe anfonwyd llythyr o rybudd i'r perchennog.
- Manylwyd ar sefyllfa gyllidebol yr Harbwr a'r Hafan hyd at ddiwedd Medi 2016.

Cyfeiriwyd at Ardal 5 a 6 gan nodi'r angen i gynllunio gwaith sylweddol ar yr angorfeydd oherwydd bod llaid wedi cronni yn yr ardal gyda banciau yn cynyddu. Nodwyd bod nifer o gwsmeriaid a angorwyd yn Ardal 5 a 6 yn 2015 wedi manteisio ar y cyfle i angori ar angorfeydd pontŵn Plas Heli yn ystod 2016 a diolchwyd i Blas Heli am eu cydweithrediad.

Adroddwyd y derbyniwyd dyfynbris o oddeutu £8,000 (ar yr offer yn unig) yng nghyswllt tynnu'r holl angorfeydd presennol allan o Ardal 5 a 6 gan ail osod un rhes o angorfeydd ar y llinell fwyaf ffafriol, gan adael y cadwyni presennol a allai effeithio yn y dyfodol os dymunir carthu. Eglurwyd yn yr hirdymor yr ystyrir carthu er mwyn cynyddu capasiti ond nid oedd hyn yn gynllun posib ar hyn o bryd. Nodwyd bod y Gwasanaeth yn deall bod pobl leol yn awyddus i aros yn yr ardal yma ond nid oedd yn gost effeithiol ar hyn o bryd i barhau â'r sefyllfa bresennol.

Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch bod angen gwell dêl ar gyfer bobl leol a'i bryder os parheir efo'r drefn o roi cychod ar bontŵn Plas Heli y byddai disgwyl bod y cychod lleol yn cael eu symud pan gynhelir digwyddiadau.

Nododd Cynrychiolydd Clwb Hwylio Pwllheli a Phlas Heli y byddai gadael y cadwyni presennol yn rheswm i beidio carthu'r ardal yma. Tynnodd aelod sylw nad oedd yr ardal yma wedi ei gynnwys yn y Strategaeth Garthu presennol.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y derbynnir bod angen angorfeydd yn yr ardal ac fe geisir dod i ddatrysiad a fyddai'n dderbyniol i bobl leol ynghyd â'r Cyngor. Cytunwyd y byddai'r swyddog yn sicrhau bod un rhes o angorfeydd ar gael yn ardal 5 a 6 ar gyfer 2017.

Manylodd Rheolwr Harbwr Pwllheli ar y rhaglen waith cynnal a chadw a gofynnwyd i aelodau hysbysu'r gwasanaeth o unrhyw waith arall sydd angen ei wneud.

Mewn ymateb i bryder Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub o ran cryfder golau bwi'r Fairway, nododd Rheolwr Harbwr Pwllheli y byddai'n edrych ar gryfder y golau.

Nodwyd bod y Gwasanaeth yn wyneb yr her ariannol yn adolygu trefn goruchwyliaeth diogelwch a goruchwyliaeth nos. Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli ei bryder gwirioneddol y byddai risgiau iechyd a diogelwch ynghyd â risg o gynnydd mewn trosedd os nad oedd goruchwyliaeth 24/7.

Rhoddwyd diweddariad ar y gwaith a gwblhawyd yn unol â'r Strategaeth Carthu hyd yma, gan nodi bod y gwaith a wnaed gan y 'bed leveller' wedi bod yn llwyddiannus. Hysbyswyd y cwblheir gwaith carthu ceg yr harbwr erbyn gwyliau Pasg 2017. Nodwyd yr angen i wneud

arolwg hydrograffeg o'r basn ar sianel i gadarnhau'r lefelau. Adroddwyd y lluniwyd briff i Ymgynghoriaeth Gwynedd o ran costio gwaith i ddychwelyd y forddwyd i'w ffurf flaenorol. Nodwyd y byddai costau sylweddol ynghlwm a chynyddu maint y forddwyd oherwydd y trwyddedau a fyddai'n rhaid eu derbyn o dan reoliadau cynefinoedd i weithredu.

Nododd Cynrychiolydd Clwb Hwylio Pwllheli a Phlas Heli ei obaith y gweithredir yn unol â'r Strategaeth Garthu a'i farn y byddai ymestyn y forddwyd, er yn gostus, yn golygu llai o waith carthu yn y dyfodol a'i bryder os na weithredir y strategaeth y byddai incwm yn gostwng o'r herwydd. Ychwanegodd y dylid parhau i ddefnyddio peiriant carthu math 'cuttersuction' er mwyn gwella dyfnder dwr yn y sianel a basn yr Hafan.

Nododd yr aelodau bod angen gweithredu y strategaeth garthu er osgoi dirywiad yn y dyfodol a fyddai'n effeithio ar incwm yr Harbwr a'r Hafan ynghyd â'r ardal yn gyffredinol.

**PENDERFYNWYD gofyn am gadarnhad y bydd y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r Strategaeth Garthu.**

Talwyd teyrnged i'r diweddar Mr Tony Hughes a fu'n gyflogedig i'r Cyngor ers sawl blwyddyn yn dilyn cyfnod gyrfa llwyddiannus gyda'r Llynges Frenhinol.

Adroddwyd y bwriedir argymell cynyddu ffioedd yr Harbwr rhwng 0.5% a 1%, a'r Hafan 1% ar gyfer 2017/18. Nodwyd y gwneir cais i'r Adran Gyllid i bontio gorwariant yr Hafan yn y flwyddyn ariannol gyfredol ynghyd â chais i ail-edrych ar y targed incwm.

Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch y byddai cynyddu'r ffioedd fel y nodwyd yn dderbyniol pe buddsoddir yn yr Harbwr a'r Hafan.

Nodwyd bod 2 drefn o ran ffioedd yn yr Hafan, gyda trefn hanesyddol lle mae rhai cwsmeriaid yn talu at Uchafswm Hyd Cwch (LOA) a cwsmeriaid mwy diweddar yn talu uchafswm gwerth yr angorfa pontwn ar drefn 'bandio'. Ystyrir unioni'r drefn ffioedd gan ddefnyddio trefniant LOA yn unig ar gyfer yr Hafan. Tynnwyd sylw y byddai unioni'r drefn ffioedd yn golygu lleihad o oddeutu £53,000 yn yr incwm a dderbynia'r Cyngor.

Nododd aelodau eu cefnogaeth unfrydol i unioni'r drefn ffioedd yn yr Hafan gan nodi y byddai'r newid yn denu unigolion i ddod a'u cychod i'r Hafan.

**PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor unioni'r drefn ffioedd yn yr Hafan a defnyddio trefniant codi ffi LOA yn unig.**

Cyfeiriodd Cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch at achosion o oryrru drwy'r Harbwr a nododd yr angen i edrych ar sut y gellir rheoli'r sefyllfa. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n siarad efo'r cwmni a oedd yn cynorthwyo gyda rheolaeth y llithrfa, ac fe ellir ystyried ffocysu un o'r camerâu teledu cylch cyfyng ar y sianel.

Ychwanegodd Cynrychiolydd Cymdeithas Perchnogion Cychod Pwllheli a'r Cylch yr angen i roi mwy o wybodaeth i ddefnyddwyr i dynnu sylw mai 4 knots yw'r cyflymdra uchaf yn y rhan yma ac fe ddylid ystyried gosod y cyflymdra uchaf ar yr arwydd a roi'r ar y cychod.

## 7. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 21 Mawrth, 2017.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 7.40pm

______________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli** |
| **DYDDIAD** | **21 Mawrth 2017** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr** |
| **AWDUR** | **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig** |

**1. Cod Diogelwch Morwrol**

1.1 Mae'r Cod Diogelwch yn 'ddogfen fyw' sydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y Gwasanaeth. Mae hefyd yn anorfod fod y Gwasanaeth yn derbyn sylwadau a barn Aelodau o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar addasrwydd y Cod Diogelwch a hefyd i dderbyn sylwadau yn rheolaidd ar ei chynnwys fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu fel yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, safon cymhorthion mordwyo, addasrwydd yr is ddeddfau, materion diogelwch a gwaith cyffredinol Harbwr Pwllheli.

1.2 Nid oes unrhyw fater neu achos o bryder wedi ei gyflwyno at sylw'r gwasanaeth yn ystod 2016 neu ar ddechrau 2017 sydd yn gysylltiedig â chyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Harbwr.

1.3 Roedd y Gwasanaeth yn disgwyl adolygiad gan arbenigwr allanol Asiantaeth Gwylwyr y Glannau ym mis Ionawr. Yn anffodus, oherwydd diffyg capasiti nid yw'r archwiliad wedi ei gynnal ac mae'r Gwasanaeth yn disgwyl i ail drefnu'r adolygiad. Rhagwelir bydd yr adolygiad ym mis Medi 2017.

**2. Materion Gweithredol**

2.1.1 **Strategaeth Garthu** - cyflwynir diweddariad ar y Strategaeth Garthu a'r gwaith sydd ynghlwm a'r Strategaeth Garthu yn y cyfarfod. Gwerthfawrogir barn yr Aelodau ar y Strategaeth Garthu a fu eisoes wedi ei ddosbarthu.

2.1.2 Trefniant carthu ceg yr harbwr - gwanwyn 2017/18. Bydd y Gwasanaeth yn cynnal archwiliad o'r sianel yn ystod y llanw isel mwyaf ffafriol yn ystod yr wythnosau nesaf. Bwriedir cynnal arolygiad hydrograffeg er adnabod a fydd angen comisiynu gwaith 'Bed levelling' yn y sianel. Rhagwelir bydd ceg yr harbwr yn cael ei garthu yn ystod mis Ebrill.

2.2 **<u>Mordwyo</u>**

2.2.1 Fe fydd archwiliad manwl yn cael ei gynnal ar gymhorthion mordwyo Pwllheli gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Tŷ'r Drindod ar y 25ain Gorffennaf 2017. Yn sgil y buddsoddiadau sylweddol diweddar rhagwelir bydd yr adroddiad yn cadarnhau parhad mewn gwelliant yng nghyflwr a lleoliadau Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr.

2.2.2 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Rybudd i Forwyr mewn grym yn Harbwr Pwllheli.

2.2.3 Mae rhaglen waith cynnal a chadw'r Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr wedi ei gwblhau a hyn yn unol â chytundeb, cyfarwyddwyd ac arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol. Fe fydd diweddariad o'r sefyllfa gyfredol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau gan yr Harbwr Feistr yn y cyfarfod. Mae golau'r Bwi Tramwyo wedi ei newid fel bod y golau i'w weld ymhellach o'r môr.

2.2.4 Fe fydd yn fwriad i gynnal a chadw'r Bwi Tramwyo sydd allan ar ei safle gan ddod a'r bwi presennol i'r lan fel gallai staff ei gynnal a chadw. Fe ragwelir bydd y gwaith hwn yn

cychwyn ym mis Medi. Fe fydd angen i'r Gwasanaeth gomisiynu contractwr i ymgymryd â'r gwaith i osod bwi newydd (dros dro) ac i gludo'r bwi presennol i'r cei mewn da bryd.

2.3 **<u>Cynnal a chadw</u>**

2.3.1 Bydd Rheolwr yr Harbwr yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Pwllheli yn ystod y cyfnod Ionawr - Mawrth 2017 ac yn rhoi amlinell o'r rhaglen waith a gafodd ei gwblhau yn y cyfnod Hydref - Rhagfyr 2016 a hyn yn unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd ger bron Aelodau yn yr Hydref. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried a'i gynnwys ar y rhaglen waith.

2.4 **<u>Materion Staff</u>**

2.4.1 Mae trefniadau adolygol ynglŷn â strwythur staff harbwr Pwllheli yn parhau. Yn dilyn llwyddiant yr ad drefniant sydd wedi ei dreialu rhagwelir bydd y trefniant yn parhau at y dyfodol agos. Fe fydd y Gwasanaeth yn parhau i ystyried opsiynau ac yn parhau i adolygu trefn goruchwyliaeth diogelwch nos yr Hafan. Mae goruchwyliaeth yr Hafan yn parhau dros gyfnod 24/7 ac mae angen adolygu a yw'r trefniant hwn yn effeithiol.

2.5 **<u>Materion Gweithredol</u>**

2.5.1 **Arwyddion Diogelwch**. Mae'r Gwasanaeth, a hyn ar y cyd gyda Sefydliad y Bad Achub, wedi cychwyn ar waith cynnal adolygiad o arwyddion diogelwch ardal yr Harbwr a thraethau Pwllheli. Fe fydd y Gwasanaeth yn ymateb i ganlyniad yr archwiliad. Mawr obeithir bydd unrhyw arwydd newydd yn cyfrannu at ddiogelwch ar y rhan hon o arfordir Gwynedd.

**3. Materion Ariannol**

3.1 Mae crynodeb o gyllideb yr Harbwr a'r Hafan yn adrodd ar y sefyllfa ariannol gyfredol yn atodol.

3.2 Yn ystod y cyfnod, bu'n ofynnol i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -

- Cynnal a chadw a phwrcasu Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
- Cynnal a chadw offer a chelfi.
- Buddsoddiad angorfeydd harbwr allanol
- Cynnal a chadw cwch ac ôl gerbyd y cwch gan bwrcasu cwch newydd (ail law) ar gyfer y gwasanaeth.
- Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff.
- Cynnal a chadw tiroedd.

3.3 **Ffioedd a Thaliadau 2017/18**. Mae taenlen ffioedd arfaethedig Harbwr Pwllheli a Hafan Pwllheli 2017 eisoes wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Harbwr gan ofyn am sylwadau. Cadarnheir bydd chwyddiant Harbyrau ar gyfer 2017/18 yn parhau yn 1.85% gyda chwyddiant Hafan yn 1.12%. Golygai hyn mae yn debygol bydd ffioedd a thaliadau Hafan a'r Harbwr Allanol yn cynyddu 2% ar gyfer 2017/18.

3.4 Yn 2017 bydd gofyn i'r Cyngor ychwanegu ffi am bob angorfa a hyn ym mhob Harbwr sydd dan reolaeth a chyfrifoldeb y Cyngor. Mae'r ffi wedi ei ychwanegu gan Stad Y Goron sydd yn hawlio £25.00 gan bob unigolyn sydd ag angorfa yn yr harbwr. Mae gofyn fod y Cyngor, fel yr Awdurdod Harbwr, yn codi ac yn casglu'r ffi hwn ar ran Stad Y Goron. Ni does TAW ynghlwm a'r ffi ychwanegol. Mae'r ffi ychwanegol hefyd yn daladwy am angorfeydd ymwelwyr ac fe fydd gofyn fod y taliad hwn yn cael ei ariannu drwy gyllideb yr Harbwr.

3.5 Er bod hyn yn cael effaith ar angorfeydd yn yr Harbwr Allanol ni fydd y ffi ychwanegol yn daladwy am angorfeydd pontŵn yn yr Hafan gan fod y marina gyda chytundeb ar wahân gyda ffi sylweddol yn cael ei dalu yn flynyddol ac sydd yn daladwy ar incwm gros yr Hafan.


3.6 Bydd ffioedd a thaliadau'r Hafan ar gyfer 2017/18 yn cael ei ystyried yn ystod yr wythnosau nesaf. Rhagwelir bydd graddfa chwyddiant Hafan ar gyfer 2017/18 yn 1.12%. Rhagwelir felly bydd angen ystyried y raddfa chwyddiant ac ystyried a fydd angen cynyddu ffioedd a thaliadau'r Hafan er cwrdd â'r raddfa chwyddiant.


3.7 Fel yr adroddwyd i Aelodau yn yr Hydref cyflwynwyd trefn amgen i'r drefn arferol o godi ffi angorfa pontŵn peth amser yn ôl. Ers hyn mae dwy drefn codi ffi mewn bodolaeth yn yr Hafan. Mae'r drefn hanesyddol, ble mae rhai cwsmeriaid, sef cwsmeriaid sydd yn yr Hafan ers dros 10 mlynedd bellach yn talu at Uchafswm Hyd Gwch (LOA.) Mae cwsmeriaid a fu wedi angori mwy diweddar yn yr Hafan yn talu uchafswm gwerth yr angorfa ar drefn 'Bandio' (Banding.)

3.8 Mae yn galonogol i adrodd fod y Cyngor wed cefnogi cais yr Uned i unioni trefn codi ffi yn yr Hafan. O'r 1af Ebrill 2017 ymlaen fe fydd y drefn codi ffi am angorfa pontŵn yn dychwelyd at drefniant Uchafswm Hyd Gwch (LOA) yn Hafan Pwllheli. Rhagwelir bydd hyn yn lleihau cost angorfa flynyddol i 95% o'r cwsmeriaid sydd ar drefniant codi ffi 'banding' ac fe fawr obeithir bydd hyn yn denu cwsmeriaid newydd i'r hafan dros y tair blynedd nesaf.

3.9 Pwysleisir mai drafft yn unig a fydd wedi ei gyflwyno ger bron Aelodau hyd yma ac mae'r ffioedd yn ddarostyngedig ar dderbyn cadarnhad gan yr Arweinydd Portffolio. Mae holl gwsmeriaid yr Harbwr gan gynnwys yr Hafan wedi derbyn copi o'r ffioedd arfaethedig a ffurflen cais/contract am angorfa ar gyfer 2017/18.

# ANGORFEYDD HARBWR PWLLHELI HARBOUR MOORINGS




ARDAL/AREA 1 & 2
ARDAL/AREA 3 & 4
Sloping masonry
Mean High Water
Mean Low Water
Shingle
Slipway
LB Sta
Boatyard
ARDAL/AREA 5
Pwllheli Marine
Navigation Light
(Flashing Green)
Mean Low Water
Shingle
MORFA'R GARREG
El Sub Sta
4.6m
ARDAL/AREA 7
Path
Mean High Water
Mud
Pond
Sloping masonry

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Morwrol a Pharciau** | | | | | | |
| **DG52-PWLLHELI** | | **Diwedd Ionawr 2017** | | | | |
| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD | CYLLIDEB | GWARIANT | YMRWYMIAD | GOR (TAN) |
| Staff | AGWE | Costau Staff | 32,400 | 17,868 | 3,604 | (10,928) |
| | | | | | | |
| Eiddo | BEID | Tiroedd ac Eiddo | 14,520 | 3,561 | 6,580 | (4,424) |
| | | | | | | |
| Trafnidiaeth | CTRA | Cwch a Cherbydau | 520 | 183 | 0 | (337) |
| | | | | | | |
| Offer a Chelfi | DCYF | Offer a Chelfi | 7,110 | 12,793 | 2,000 | 7,683 |
| | | | | | | |
| Incwm | INCM | Incwm Harbwr | (79,810) | (44,641) | 0 | 37,454 |
| | | | | | | |
| Cyfanswm | CYF | Cyfanswm | (25,260) | (10,236) | 12,184 | 29,448 |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

| Morwrol a Pharciau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DG51-HAFAN | | Diwedd Ionawr 2017 | | | | |
| GRWP | CYFRIF | DISGRIFIAD | CYLLIDEB | GWARIANT | YMRWYMIAD | GOR (TAN) |
| Staff | AGWE | Costau Staff | 270,920 | 214,834 | 46,008 | (10,078) |
| | | | | | | |
| Eiddo | BEID | Tiroedd ac Eiddo | 416,460 | 386,460 | 30,000 | 0 |
| | | | | | | |
| Trafnidiaeth | CTRA | Cwch a Cherbydau | 7,860 | 2,725 | 951 | (4,184) |
| | | | | | | |
| Offer a Chelfi | DCYF | Offer a Chelfi | 115,910 | 80,582 | 21,197 | (14,131) |
| | | | | | | |
| Incwm | INCM | Incwm Harbwr | (1,329,970) | (1,184,581) | (85,000) | 60,389 |
| | | | | | | |
| Cyfanswm | CYF | Cyfanswm | (518,820) | (499,980) | 13,156 | 31,996 |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

# Ffioedd - Hafan Pwllheli -Fees – 2017/18

| Prisiau yn eithrio TAW | 2015/16<br>£ | 2016/17<br>£ | 2017/18<br>£ +2% | Prices exclude VAT |
|---|---|---|---|---|
| **Angorfa Pontŵn Blwyddyn fesul medr (lleiafswm 7m)**<br>Blynyddol mewn 1 taliad (heb drydan)<br>Blynyddol mewn 10 rhandal (heb drydan)<br>Trydan fesul medr<br>Blynyddol mewn 1 taliad (gyda thrydan)<br>Blynyddol mewn 10 rhandal (gyda thrydan)<br>+10% i gychod masnachol di breswyl yng Ngwynedd | <br>301.75<br>325.89<br>13.52<br>315.27<br>340.48 | <br>304.76<br>320.00<br>14.70<br>319.46<br>334.16 | <br>310.85<br>326.40<br>15.43+5%<br>326.28<br>341.83 | **Annual pontoon berthing per m (min 7m up to 10m)**<br>Paid in 1 instalment (without electricity)<br>Paid in 10 instalments (without electricity)<br>Electricity per metre<br>Paid in 1 instalment (including electricity)<br>Paid in 10 instalments (including electricity)<br>+10% for commercial vessels-non resident in Gwynedd |
| **Safle Blynyddol Cwch Dydd (mwyafrif 8m)**<br>**Taliad sefydlog**<br>Fynnu hyd at 6m D33 – D52<br>Fynnu hyd at 8m D01 – D32 | <br>1510.88 | <br>1510.88 | <br>1541.09<br>1775.00 | **Annual Day boat (max 8m)**<br>Up to 6m (Fixed charge) D33 – D52<br>Up to 8m (Fixed charge) D01 – D32 |
| **Blynyddol Cwch Dydd mewn 10 rhandal**<br>Fynnu hyd at 6m D33 – D52<br>Fynnu hyd at 8m D01 – D32 | <br>1631.76 | <br>1586.42 | <br>1618.14<br>1863.75 | **Annual Day boat paid in 10 instalments**<br>Up to 6m D33 – D52<br>Up to 8m D01 – D32 |
| **Ymwelwyr**<br>Amser byr (uchafswm 4 awr) tal sefydlog-pob cwch cynnwys cychod siarter<br>Tros nos fesul medr - lleiafswm 7m yn<br>Wythnosol fesul medr (leiafswm o 5 noson i dderbyn)<br>Gaeaf fesul mis fesul medr (1 Hydref i 31 Mawrth)<br>Fesul mis Dalwyr Angorfa Cyngor Gwynedd yn unig (01 Hydref – 31 Mawrth yn unig) | <br>11.05<br><br>2.06<br>12.63<br>17.89<br><br>61.81 | <br>11.16<br><br>2.06<br>12.63<br>17.89<br><br>61.81 | <br>11.38<br><br>2.10<br>12.88<br>18.25<br><br>63.05 | **Visitor Berthing**<br>Short stay-load/unload (max 4 hrs) fixed charge-all vessels<br><br>Overnight per m - min 7m inc Charter vessels<br>Weekly per mt (min 5 nights stay to qualify)<br>Winter Per mt per calendar month (01 October – 31 March only)<br>Per calendar month Gwynedd Council Mooring Holders only (01 October – 31 March only) |
| **Trydan (pontŵn)**<br>Cynnal a chadw blynyddol<br>ac unedau ar dal wedi eu hysbysebu | <br>Cynwysedig<br>Included | <br>Cynwysedig<br>Included | <br>Cynwysedig<br>Included | **Electricity (pontoons)**<br>Annual maintenance charge<br>plus units at advertised unit rate |
| **Cwch yr Hafan**<br>Fesul awr<br>Lleiafswm | <br>35.67<br>35.67 | <br>36.03<br>36.03 | <br>36.75<br>36.75 | **Marina Launch**<br>Charge per hour<br>Minimum charge |
| **Llafur**<br>Fesul awr | 30.11 | 30.41 | 31.02 | **Labour**<br>per hour |
| **Ymholiadau Datgan Diddordeb Angorfa** | 83.33 | 83.33 | 83.33 | **Berth Expression of Interest** |

# Ffioedd - Hafan Pwllheli - Fees – 2017/18



| Prisiau yn eithrio TAW | 2015/16 £ | 2016/17 £ | 2017/18 £+2% | Prices exclude VAT |
|---|---|---|---|---|
| **Peiriant codi cychod- fesul medr** | | | | **Travel Hoist – per metre** |
| Codi Allan / Codi-Dal-Lansio | | | | Lift Out / Lift-Hold-Launch |
| i fyny i 7m | 12.85 | 12.85 | 13.11 | Up to 7 m |
| 7.1m i 9m | 15.76 | 15.76 | 16.07 | 7.1m to 9 m |
| 9.1m i 10m | 16.41 | 16.41 | 16.74 | 9.1m to 10m |
| 10.1m i 11m | 16.72 | 16.72 | 17.05 | 10.1m to 11m |
| 11.1m i 12m | 17.19 | 17.19 | 17.53 | 11.1m to 12m |
| 12.1m i 15m | 18.38 | 18.38 | 18.75 | 12.1m to 15m |
| Dros 15m | 29.88 | 29.88 | 30.48 | Over 15m |
| **Lansio yn unig** | | | | **Launch only** |
| i fyny at 7m | 11.88 | 11.88 | 12.12 | Up to 7 m |
| 7.1m at 9m | 14.56 | 14.56 | 14.85 | 7.1m to 9 m |
| 9.1m at 10m | 15.18 | 15.18 | 15.48 | 9.1m to 10m |
| 10.1m at 11m | 15.47 | 15.47 | 15.78 | 10.1m to 11m |
| 11.1m at 12m | 15.91 | 15.91 | 16.23 | 11.1m to 12m |
| 12.1m i 15m | 17.00 | 17.00 | 17.34 | 12.1m to 15m |
| Dros 15m | 26.89 | 26.89 | 27.43 | Over 15m |
| Symud Cwch yn yr Iard fesul medr | 6.96 | 6.96 | 7.10 | Yard Movement per m |
| Scrwb amser cinio wedi ei disgowntio | 9.16 | 9.16 | 9.34 | Discounted lunchtime scrub |
| -10% ar bob pris uchod i gychod masnachol | | | | -10% on above prices for commercial vessels |
| **Craen symudol** | 66.08 | 66.74 | 68.07 | **Mobile crane** |
| Fesul awr | 39.46 | 39.85 | 40.65 | Per hour |
| Lleiafswm | | | | Minimum charge |
| **Storio** | | | | **Storage** |
| Storio ar y lan i berchennog doc fesul medr fesul dydd | .24 | .24 | .25 | Annual contract holders per m per day |
| Storio ar y lan i ymwelwyr fesul medr fesul dydd | .34 | .36 | .37 | Non-Annual contract holders per m per day |
| **Storio** crud/ôl cerbyd i ymwelwyr fesul dydd | 1.32 | 1.33 | 1.36 | **Storage** of cradles/trailers for non contract holders per day |
| **Llogi crud Hafan fesul dydd** | 1.32 | 1.33 | 1.36 | **Hire of marina cradle/boat stands per day** |
| **Llafur ategu** | 34.52 | 34.87 | 35.57 | **Shoring labour charge** |

# Ffioedd - Hafan Pwllheli - Fees – 2017/18

| Prisiau yn eithrio TAW | 2015/16<br>£ | 2016/17<br>£ | 2017/18<br>£+2% | Prices exclude VAT |
|---|---|---|---|---|
| **Llithriad - Uchafrif 80 cwch fesul cwmni - Uchafrif 6 cwmni**<br>Defnydd masnachol yn cynnwys cofrestru | 2878.00 | 2935.56 | 2994.28 | **Slipway – Maximum 80 vessels per company - Maximum 6 companies**<br>Commercial use including registration fee |
| **Trydan ar y lan**<br>Perchennog doc blynyddol<br>Defnydd dyddiol (**cynnwys TAW**)<br>Peiriant pŵer dros dro<br>Unedau ar gost fel arddangos yn y dderbynfa | Cynwysedig<br>Included<br>2.68 | Cynwysedig<br>Included<br>2.81 | Cynwysedig<br>Included<br>2.87 | **Electricity onshore**<br>Annual contract holders<br>Daily charge (inc VAT)<br>Intermittent use for power tools<br>Units used at unitary rates as displayed in reception. |
| **Hwylio Sych - Cwch Sbort**<br>1tf o Fai - 30 o Dachwedd<br>fesul lansio a chodi: 1720/707/J80/Sonata ayb | 865.45<br>56.23 | 865.45<br>58.47 | 882.76<br>59.64 | **Dry Sailing – Sports Boat**<br>1st May - 31st October<br>per launch and lift sailing sports boat:1720/707/J80/Sonata etc |
| **Tir yr Hafan fesul m²** | 5.69 | 5.80 | 5.92 | **Land rental per m²** |
| | | | | |
| **Wal y Marina tros nos fesul medr**<br>(cychod pysgota masnachol yn unig) | 2.19 | 2.25 | 2.30 | **Marina wall berthing per m per night**<br>(commercial fishing vessels only) |
| **Ffioedd glanio pysgod** | 2.19 | 2.25 | 2.30 | **Fish landing fees** |
| **Disel fesul lityr – cychod pleser** | Pris y farchnad<br>Market price | Pris y farchnad<br>Market price | Pris y farchnad<br>Market price | **Diesel per litre- leisure craft** |
| **Disel Coch fesul lityr**<br>Defnyddwyr Masnachol Cofrestredig<br>Pris Masnach + | +0.02c | +0.02c | +0.02c | **Red Diesel per litre**<br>Registered/approved Commercial Users<br>Trade Price + |

# Ffioedd - Harbwr Allanol Pwllheli Outer Harbour -Fees – 2017/18

| **Disgrifiad**<br>**Eithrio TAW (20%)** | **Ffi leol Local Fee 2016/17** | **Eraill Other 2016/17** | **Ffi leol Local Fee 2017/18 +2%** | **Eraill Other 2017/18 +2%** | **Description**<br>**Not including VAT (20%)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ffi angorfa fesul medr** | | | | | **Mooring per meter** |
| **Ardal 1** – Rhif Angorfa 01 | 52.96 | 71.58 | 54.02 | 73.01 | **Area 1** – Mooring Numbers 01 |
| **Ardal 2** – Rhif Angorfa 01- 13 | 65.05 | 86.97 | 66.35 | 88.71 | **Area 2** – Mooring Numbers 01- 13 |
| **Ardal 3-** Rhif Angorfa 13 -34 (lleiaf hyd 7m) | 124.27 | 134.38 | 126.76 | 137.07 | **Area 3** – Mooring Numbers 13- 34 (min 7m) |
| **Ardal 3**– Rhif Angorfa 13 – 34<br>**(Pysgotwyr Llawn amser yn unig)** | 66.89 | 120.93 | 68.23 | 123.35 | **Area 3 -** Mooring Numbers 13 -34<br>**(Full time Fishermen only)** |
| **Ardal 4**– Rhif Angorfa 01–10 | 14.71 | 15.36 | 15.00 | 15.67 | **Area 4** – Mooring Numbers 01–10 |
| **Ardal 5**– Rhif Angorfa 01–10 | 69.93 | 94.56 | 71.33 | 96.45 | **Area 5** – Mooring Numbers 01–09 |
| | | | | | |
| **Ardal 7**– Rhif Angorfa 01- 32 | 64.96 | 87.80 | 66.26 | 89.56 | **Area 7** – Mooring Numbers 01- 32 |
| **Cwch Ymwelwyr - Dyddiol neu ran o ddydd** | | | | | **Visiting vessels** |
| Cwsmeriaid Harbwr/Marina Gwynedd – fesul diwrnod | 5.15 | 5.15 | 5.25 | 5.25 | Gwynedd Harbour Mooring/Marina Clients – per day |
| Pob Cwch Ymweld Arall– fesul diwrnod | 6.43 | 6.43 | 6.56 | 6.56 | All Other Visiting Vessels – per day |
| **Gaeafu cwch yr wythnos neu wythnos - fesul medr - 01 Hydref – 31 Mawrth** | 6.20 | 6.20 | 6.32 | 6.32 | **Winter storage per week or part of week - per meter- 01 October – 31 March** |
| Wall yr Harbwr Llwytho/dadlwytho neu aros dros nos - fesul medr | 2.19 | 2.19 | 2.23 | 2.23 | Quay Wall Unloading/Loading or overnight stay - per metre |
| **Compownd Diogel (llai 40% pysgotwyr Bona fida cofrestredig llawn amser yn unig-gwelir diffiniad)** | 677.54 | 684.33 | 691.09 | 698.02 | **Secure Compound (less 40% for registered Bona fida full time fishermen only-see definition)** |
| Gaeafu ar angorfa yn yr Harbwr - 01 Hydref - 31 Mawrth. Fesul wythnos neu ran o wythnos | 14.09 | 14.24 | 14.37 | 14.52 | Vessels on winter moorings - 01 October – 31 March. Per week part of week |

**Compound-discount applied to bona fida fishermen with annual mooring in Pwllheli. Compound License Holder must also be the skipper of the Fishing Vessel.**

**Ffioedd Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol**
**Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees**

**01/04/2017 – 31/03/2018**

**Holl ffioedd ddim yn cynnwys TAW / All fees exclusive of VAT**

| Ffi Adnewyddiad (Trwyddedau Bach) | 2016/17 | Renewal Fees (Small Permits) |
|---|---|---|
| Ail-cofrestru Blynyddol | £25.00 | Annual Re-registration |
| **Ceisiadau Llestr Newydd (Trwyddedau Mawr a Bach)** | | **New Vessel Applications (Large and Small Permits)** |
| Cofrestru Blynyddol | £33.33 | Annual Registration |
| **Ffi Lansio** | | **Launching Fees** |
| Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinnol<br>Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan (yn cynnwys parcio) | £8.33<br>£10.83 | Daily launch – General Slipways/Beaches<br>Daily launch – Morfa Bychan Beach (includes parking) |
| Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth)<br>Cynnwys Ffi Cofrestru | £116.67 | Annual Launching Permits (1 April – 31 March)<br>Inclusive of Registration Fee |
| Only Postal Applications are accepted at the Main Council Offices in Pwllheli.<br>In Person applications will be processed on the day at any of the Council's harbour offices, or during the summer season at the main resort beaches. | | |
| **Trosglwyddo / Ailddodiad** | | **Transfer / Replacement** |
| Ceisiadau drwy'r post yn unig i Swyddfa Forwrol y Cyngor ym Mhwllheli | £33.33 | Postal application only to the Council Maritime Office in Pwllheli |
| **Cychod llai na 10 HP** | | **Vessels under 10 HP** |
| Ffi Cofrestru Blynyddol – Ceisiadau Mewn Person yn Unig<br><br>Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio | £20.83 | Annual Registration Fee – In Person Application Only<br><br>At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection |

**Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Maritime and Country Parks Unit**

***FFIOEDD A THALIADAU CYFFREDINOL / GENERAL FEES AND CHARGES***

| Prisiau Eithrio TAW | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Prices exclude VAT |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Rhaff cysylltiol a bwi codi | **Diddymu Withdrawn** | **Diddymu Withdrawn** | **Diddymu Withdrawn** | Link line and pickup buoy |
| | | | | |
| Gosod rhaffau angorfeydd | **Diddymu Withdrawn** | **Diddymu Withdrawn** | **Diddymu Withdrawn** | Fitting of mooring lines |
| | | | | |
| Ffi Cytundeb Angorfa Trefor (fesul llestr) | **40.06** | **40.86** | **41.68** | Trefor Mooring Fee Agreement (per vessel) |
| | | | | |
| Trwydded Cychwyr - Pwer {(Eithrwyd TAW) | **56.10** | **57.22** | **65.00** | Boatman's Licence - Power (VAT Exempt) |
| Trwydded Perchennog - Pwer (Eithrwyd TAW) | **66.30** | **67.63** | **70.00** | Proprietor's Licence - Power (VAT Exempt) |
| | | | | |
| Hawlen Cwch Gweini Y Felinheli | **-------------** | **--------------** | **20.00** | Y Felinheli Yacht Tender Permit |
| | | | | |
| Trwydded Angorfa Stad Y Goron (Eithrwyd TAW) | **-------------** | **--------------** | **25.00** | Crown Estate Mooring License per mooring (VAT Exempt) |


| **Cymru / Wales** | | **Cost Medr-2016** | **Uchafswm/MAX LOA** | **Cost Medr-2017** |
|---|---|---|---|---|
| | **Cynnwys TAW Inc VAT** | | | |
| | | | | |
| Deganwy Quays | 170 | £430.46 | 20 | |
| Conwy Marina | 450 | £399.26 | 23.3 | |
| Hafan Pwllheli | 430 | £365.71 | 25 | £373.02 |
| Neyland Yacht Haven | 420 | £321.25 | 20 | |
| Holyhead Marina | 200 | £318.00 | 20 | |
| Aberystwyth Marina | 101 | £310.27 | 20 | |
| Penarth Quays Marina | 350 | £301.76 | 25 | |
| Port Dinorwic Marina | 200 | £300.00 | 30 | |
| Cardiff Marina | 350 | £250.00 | 20 | |
| Milford Marina | 300 | £246.00 | 80 | |
| Doc Fictoria | 46 | £234.23 | 14 | |
| Swansea Marina | 400 | £206.43 | 20 | |
| | | | | |


# ***Gwasanaeth Morwrol / Maritime Service***


***Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics***
***Hafan, Pwllheli***


| Harbwr<br>Harbour | Nifer o Angorfeydd<br>Available no of moorings | Preswylydd<br>Occupancy | Preswyl yng Ngwynedd<br>Residing in Gwynedd | Eraill<br>Others |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Hafan Pwllheli 2002 | 421 | 421 (100%) | 77 (18.3%) | 344 (81.7%) |
| Hafan Pwllheli 2003 | 421 | 421 (100%) | 90 (21.4%) | 331 (78.6%) |
| Hafan Pwllheli 2004 | 421 | 421 (100%) | 103 (24.47%) | 318 (75.5%) |
| Hafan Pwllheli 2005 | 411 | 411 (100%) | 121 (29.5%) | 290 (70.5%) |
| Hafan Pwllheli 2006 | 412 | 412 (100%) | 121 (29.5%) | 291 (70.5%) |
| Hafan Pwllheli 2007 | 411 | 411 (100%) | 125 (30%) | 286 (70%) |
| Hafan Pwllheli 2008 | 410 | 410 (100%) | 116 (28.0%) | 294 (72.0%) |
| Hafan Pwllheli 2009 | 410 | 407 (99%) | 107 (26%) | 300 (74%) |
| Hafan Pwllheli 2010 | 410 | 408 (99%) | 105 (26%) | 303 (74%) |
| Hafan Pwllheli 2011 | 410 | 363 (88.5%) | 78 (21.5%) | 285 (78.5%) |
| Hafan Pwllheli 2012 | 410 | 339 (82.68%) | 75 (22.1%) | 264 (77.9%) |
| Hafan Pwllheli 2013 | 410 | 302 (73.66%) | 68 (22.52%) | 234 (77.48%) |
| Hafan Pwllheli 2014 | 409 | 293 (71.6%) | 51 (17.4%) | 242 (82.6%) |
| Hafan Pwllheli 2015 | 409 | 292 (71.4%) | 56 (19.2%) | 236 (80.8%) |
| Hafan Pwllheli 2016 | 409 | 287 (70.2%) | 55 (13.4%) | 232 (56.7%) |


## Ystadegau Blynyddol *Hafan Pwllheli* - i Mawrth 2017
## Annual Statistics for *Hafan Pwllheli* - to March 2017










Nifer o gychod ymwelwyr mewn blwyddyn - No. of visiting vessels per year
1499
1507
1426
1529
1119
1367
1138
1326
1440
1600
1400
1200
1000
800
600
400
200
0
2008
2009
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016



Cyfanswm medr cychod ymwelwyr - Total mts visiting vessels
36717
33073
31086
37417
38707
40771
32451
46382
45507
50000
45000
40000
35000
30000
25000
20000
15000
10000
5000
0
2008
2009
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016


Nifer o gychod ar yr rhestr diddordeb mewn angorfa - No. of vessels on the Expressions of Interest list
400
350
300
250
200
150
100
50
0
377
202
183
131
133
76
76
74
74
2008
2009
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016


Cychod Hwyl/Pwer ar yr rhestr diddordeb mewn angorfa -
No of Sail/Power vessels on the Expressions of Interest list
60
50
40
30
20
10
0
53
21
Pwer - Power
Hwyl - Sail


Nifer o gychod Hwylio/Pwer yn yr Hafan - No. of sailing/power vessels in the Hafan
250
200
150
100
50
0
214 197 212 198 184 223 180 227 153 205 169 181 149 153 155 137 154 138 150 138
2007 2008 2009 2010 2011 2012 2013 2014 2015 2016
Hwylio/Sail
Pwer/Power


Preswyl yng Ngwynedd/Residing In Gwynedd
350
300
250
200
150
100
50
0
291 286 294 300 303 285 264 234 244 236 232
121 125 116 107 105 78 75 68 50 56 55
2006 2007 2008 2009 2010 2011 2012 2013 2014 2015 2016
Lleol/Local
Eraill/Others





**Dadansoddiad o pam fod perchennog doc yn gadel - 1taf Ebrill i 31ain o Fawrth**


***Analysis of why resident bertholders leave 1st April to 31st March***


| | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi gwerthu cwch/sold boat | 2 | 12 | 15 | 12 | 20 | 7 | 13 | 9 | 5 |
| Ardal newydd/New Cruising Ground | 5 | 4 | 10 | 12 | 26 | 8 | 7 | 5 | 1 |
| Parcio a lansio/Park and Launch | 0 | 0 | 6 | 2 | 0 | 3 | 4 | 1 | 1 |
| Dim rheswm/No reason given | 34 | 30 | 28 | 24 | 17 | 16 | 14 | 2 | 3 |
| Rhu ddrud/Too expensive | 14 | 3 | 6 | 2 | 3 | 1 | 1 | 3 | 0 |
| Methdalwr/Bankrupt | 1 | 6 | 1 | 0 | 2 | 2 | 0 | 1 | 0 |
| Iechyd/Ill health | 7 | 6 | 3 | 8 | 4 | 8 | 2 | 4 | 1 |
| Blwyddyn allan/Year out | 8 | 13 | 10 | 5 | 3 | 5 | 2 | 2 | 0 |
| Carthu/Dredging | 0 | 2 | 2 | 8 | 4 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm/Total** | **71** | **76** | **81** | **73** | **79** | **50** | **43** | **28** | **11** |


**Hyd at Mawrth 2017**
**Up to March 2017**


Ystadegau Blynyddol *Harbwr Pwllheli* - i Mawrth 2017
Annual Statistics for *Pwllheli Harbour* - to March 2017




Preswyl yng Ngwynedd - Residing in Gwynedd
100
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
75
94
69
94
74 74
73
78
73
67
62
59
31
59
56
58
50
31
57
30
27
31
2006
2007
2008
2009
2010
2011
2012
2013
2014
2015
2016
Lleol
Eraill/Other


Nifer o gychod Hwylio/Pwer yn yr Harbwr - Number of Sailing/Power vessels
90
80
70
60
50
40
30
20
10
0
85
36
57
33
64
50
46
35
41
46
40
18
2011
2012
2013
2014
2015
2016
Hwylio/Sail
Pwer/Power




**Dadansoddiad o pam fod perchennog doc yn gadel - 1taf Ebrill i 31ain o Fawrth**

***Analysis of why resident bertholders leave 1st April to 31st March***

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi gwerthu cwch/sold boat | 3 | 4 | 0 | 1 | | | | |
| Ardal newydd/New Cruising Ground | 0 | 0 | 17 | 0 | | | | |
| Parcio a lansio/Park and Launch | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | |
| Dim rheswm/No reason given | 0 | 0 | 12 | 0 | | | | |
| Rhu ddrud/Too expensive | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | |
| Methdalwr/Bankrupt | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | |
| Iechyd/Ill health | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | |
| Blwyddyn allan/Year out | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | |
| Carthu/Dredging | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| Cyfanswm/Total | 3 | 4 | 29 | 1 | | | | |

Hyd at Mawrth 2017
Up to March 2017

| Angorfeydd pontwn yr Hafan – Berths at the Hafan | 2015 (01/04/2015) | 2016 (20/03/16) | 2017 (07/03/17) |
|---|---|---|---|
| Nifer o angorfeydd ar gael yn yr Hafan<br>*Number of berths available in the Hafan* | 409 | 409 | 409 |
| Nifer wedi derbyn<br>*Number that have accepted* | 293 | 240 | 198 |
| Nifer o angorfeydd sydd yn wag<br>*Number of berths not allocated* | 116 | 169 | 211 |
| Nifer ar y rhestr "Dangos diddordeb"<br>*Number on the "Expression of interest" list* | 76 | 76 | 74 |



| Angorfeydd yr Harbwr Allanol – Berths in the Outer Harbour | 2015 (01/04/2015) | 2016 (20/03/16) | 2017 (07/03/17) |
|---|---|---|---|
| Nifer o angorfeydd ar gael yn yr Harbwr<br>*Number of berths available in the Harbour* | 114 | 114 | 81 |
| Nifer wedi derbyn<br>*Number that have accepted* | 91 | 75 | 38 |
| Nifer o angorfeydd sydd yn wag<br>*Number of berths not allocated* | 23 | 39 | 42 |
| Nifer ar y rhestr "Datgan diddordeb"<br>*Number on the "Expression of interest" list* | 0 | 0 | 0 |